# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU DYNOL, EFFEITHLONRWYDD A CHYDWEITHIO

## DYDD IAU, 13 EBRILL 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** L.M. Stephens (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
H. Font, Rheolwr Llesiant Gweithwyr;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 6 GORFFENNAF, 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir.**

**3. FERSIWN DIWYGIEDIG O'R POLISI IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, ac awgrymodd, newidiadau arfaethedig i bolisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cyngor a adolygwyd ac a ddiweddarwyd yn unol â newidiadau i rolau a chyfrifoldebau. Roedd y polisi wedi cael ei ystyried yn enghraifft dda o'i fath gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac roedd wedi cael ei argymell i awdurdodau eraill er mwyn iddynt ei addasu a'i fabwysiadu. Nid oedd y gwelliannau i'r polisi yn rhai sylweddol ond roeddent yn egluro cyfrifoldebau allweddol yn well.

Ymatebodd y Rheolwr Llesiant Gweithwyr i gwestiynau gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol a nododd nifer o newidiadau awgrymedig pellach i'r polisi.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar gynnwys y newidiadau pellach a nodwyd, gymeradwyo'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol diwygiedig**

_______________________________ __________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**